



## Covid-19

**Wrth i bandemig Covid-19 barhau, rydym yn gweithio ar ddatrysiadau fel bod y graddau a ddyfernir i ddysgwyr eleni yn adlewyrchu eu gwaith yn deg.**

Hoffem ddiolch i'n holl bartneriaid yn y sector addysg am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth yn ystod y cyfnod eithriadol hwn.

Rydym wedi creu hwb Covid-19 ar ein gwefan lle gallwch ddod o hyd i'n holl wybodaeth ddiweddaraf gan gynnwys datganiadau, blogiau a chwestiynau cyffredin. Gallwch ein dilyn ar Twitter a Facebook i gael diweddariadau dyddiol.



### Dywedwch eich barn wrthym

Rydym yn ceisio barn ar ddwy agwedd allweddol ar gyfer haf 2020.

- Y nodau a fydd yn sail i'r model safoni ystadegol a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer dyfarnu graddau ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau yr effeithir arnynt. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio gan **CBAC** i sicrhau bod y graddau a gyflwynir gan ganolfannau ledled Cymru yn cael eu barnu ar yr un lefel.
- Y broses apelio benodol sydd ei hangen ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 o gofio na fydd papurau'n cael eu marcio yn y ffordd arferol.

Rydym yn cydnabod nad oes unrhyw atebion perffaith ac yn ymwybodol y gellir ystyried bod y cynigion hyn yn llai dymunol na'r trefniadau arferol. Ond os ydych yn anghytuno â'r cynigion ac os oes gennych syniadau eraill neu awgrymiadau dichonadwy, rydym am eu clywed.

Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 5pm ddydd Mercher 13 Mai. Mae'r manylion llawn ar y [wefan](#).

## Cymwysterau Cyffredinol (TGAU, UG a Safon Uwch)

Rydym wedi cynhyrchu dau raffigyn sy'n esbonio'r broses ar gyfer dysgwyr blwyddyn 10 a blwyddyn 12. Hefyd, ceir cyfres o Gwestiynau Cyffredin sydd wedi'u seilio ar y cwestiynau rydych chi wedi bod y neu gofyn i ni. Gallwch ddarllen rhagor [yma](#).

### Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr preifat

Mae byrddau arholi wedi cyhoeddi canllawiau pellach i gefnogi Penaethiad Canolfannau wrth iddynt wneud dyfarniadau am am ymgeiswyr preifat. Fe welwch y datganiad llawn yma.



### Eglurder i'r rhai sy'n dilyn cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym wedi darparu eglurder ar gyfer dysgwyr sydd i fod i gwblhau eu hasesiadau ar gyfer [cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol](#) yr haf hwn.

Rydyn ni'n mabwysiadu dull cyson ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig. Y rheswm am hyn yw bod rhai o'r cymwysterau yn rhai Cymru yn unig, tra bo eraill yn cael eu darparu yn Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd.

Gan fod y sector yn cynnwys ystod o gymwysterau sydd ar gael gyda gwahanol ddibenion a llwybrau dilyniant yn gysylltiedig ac amrywiaeth o ddulliau asesu, ni fu'n bosibl nodi un dull gweithredu y gellir ei ddefnyddio ar draws y gyfres gyfan. Felly mae ystod o atebion wedi cael eu datblygu a bydd cyrff dyfarnu mewn cysylltiad â chanolfannau i amlinellu'r camau nesaf.

Mae'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith yn berthnasol i ddysgwyr a oedd i fod i gwblhau eu cymwysterau cyn 31 Gorffennaf 2020.

### Bydd pob dysgwr SHC yn derbyn canlyniadau

Bydd holl ddysgwyr Sgiliau Hanfodol Cymru a oedd i fod i gwblhau eu cymhwyster cyn diwedd Gorffennaf yn cael canlyniad wedi'i gyfrifo.

Bydd yn seiliedig ar y canlyniad yr oedd eu tiwtor/aseswr yn credu y byddent yn ei gael pe byddent wedi sefyll y profion. Bydd y cyrff dyfarnu'n goruchwyllo'r penderfyniadau hyn yn llym.

Darllenwch y manylion yma.



## Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol

Mae Ofqual wedi lansio ymgynghoriad yn dilyn canslo ystod o arholiadau ac asesiadau mewn cymwysterau galwedigaethol a thechnegol yn sgil y pandemig.

O ystyried y lefel uchel o gydlynid sydd yn y cymwysterau sydd ar gael a'r dulliau rheoleiddio, rydym wedi cytuno y dylai cynigion Ofqual sy'n ymwneud â chymwysterau a ddyfernir yn Lloegr fod yn gymwys hefyd pan gânt eu dyfarnu yng Nghymru. Gall unrhyw un sy'n ymwneud â'r cymwysterau hyn ymateb i ymgynghoriad Ofqual, a fydd yn para tan 8 Mai. Gellir dod o hyd i'r manylion yma.

## Rhoi'r diweddaraf i chi

Rydym wedi cynhyrchu cyfres o flogiau sy'n rhoi mwy o wybodaeth am pam mae cyfrifo graddau UG yn broses gymhleth a'r ffordd ymlaen ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn ystod y pandemig hwn, ymhlith pethau eraill. Rydyn ni'n ychwanegu rhai newydd yn gyson felly ewch i'n tudalennau blog yn rheolaidd.

## Ymunwch â ni

Rydyn ni'n hysbysebu Prentisiaeth Ddigidol. Ewch i'n gwefan am fwy o fanylion.

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

### Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg

Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:



Copyright © 2020 Qualifications Wales All rights reserved.

Contact us:

[comms@qualificationswales.org](mailto:comms@qualificationswales.org)

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.